TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 2 Opsiwn 2.5

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
- Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1
- Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1

Strwythur y cymhwyster ..... 2
Asesu ..... 3
- Crynodeb o'r Asesu Uned 2 ..... 3

Amcanion asesu a phwysoli Uned 2 ..... 3
Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.5 ..... 4
Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.5 ..... 5
Profiadau Dysgu ..... 20
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 21
Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.5 ..... 28

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnwyd am y tro cyntaf yn Haf 2028. | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU  Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu Uned 2

**Uned 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
***Asesiad di-arholiad ar sgrin:* 3 awr**
**20% o'r cymhwyster**

**80 marc**

Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**Yr Oesoedd Canol**

**2.1** Genghis Khan tua 1162–tua 1227: astudiaeth achos ar imperialaeth yr oesoedd canol

**2.2** Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol

**Modern Cynnar**

**2.3** Concwest Sbaen ar yr Asteciaid tua 1492 – tua 1525: astudiaeth achos ar drefedigaethedd fodern gynnar

**2.4** Süleyman I tua 1520–tua 1566: astudiaeth achos ar imperialaeth fodern gynnar

**Modern**

**2.5** Y Drydedd Reich, tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern

**2.6** Afghanistan tua 1979 – tua 2001: astudiaeth achos ar gydberthynas fodern y gwledydd

Ar gyfer yr asesiad di-arholiad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan gynnig ymateb â ffocws ar fater penodol.

Bydd dysgwyr yn cwblhau asesiad Uned 2 yn ddigidol drwy lwyfan e-asesu CBAC.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 2

| | | |
|---|---|---|
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 5% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan gyfuno'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 5% |
| AO4 | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol. | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 2: Opsiwn 2.5

**Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd**
(20% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 2 yw darparu dealltwriaeth fanwl o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd drwy astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

Bydd dysgwyr yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd. Yna byddant yn cynnal ymholiad hanesyddol yn seiliedig ar eu dewis o destun hanesyddol.

Dylai dysgwyr allu dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso wrth fynd i'r afael â ffynonellau sy'n ymwneud â'r testun hanesyddol a ddewiswyd a dehongliadau hanesyddol sy'n cynnwys safbwyntiau cyferbyniol o ran digwyddiadau a phobl.

Dylai dysgwyr hefyd allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau hanesyddol canlynol yng nghyd-destun eu dewis o destun hanesyddol:

- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

Dylai dysgwyr allu dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i gynnal ymholiadau hanesyddol, gan gynnwys:

- cael trosolwg o destun penodol
- casglu tystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth o'r hanes a'r dadleuon cysylltiedig
- crynhoi'r pwyntiau a'r dadleuon allweddol
- adolygu gwybodaeth a ffurfio rhagdybiaeth sy'n gysylltiedig â chwestiwn penodol
- dewis, dadansoddi, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth
- cynllunio a llunio ymateb i gwestiwn penodol
- datblygu hunanwerthusiad beirniadol o'u perfformiad yn y dasg.

| Cyfnod amser | Opsiwn | |
|---|---|---|
| Modern | 2.5 | Y Drydedd Reich, tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern |
| | 2.5.1 | Atgyfnerthu'r Blaid Natsïaidd tua 1933–1934 |
| | 2.5.2 | Polisïau Cymdeithasol ac ar Sail Hil tua 1933–tua 1939 |
| | 2.5.3 | Polisïau Crefyddol ac Economaidd tua 1934 – tua 1939 |
| | 2.5.4 | Effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl yr Almaen |
| | 2.5.5 | Cwymp y Drydedd Reich a dad-Natsïeiddio |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 2.5

## Modern: Y Drydedd Reich, tua 1933 – tua 1945: astudiaeth achos ar genedlaetholdeb modern

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

2.5 Cefndir: tarddiad a thwf y Blaid Natsïaidd
(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**).

| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
|---|---|---|---|---|
| • rhesymau dros sefydlu Gweriniaeth Weimar a'r heriau oedd yn ei wynebu. | Ystyried gwaddol y Rhyfel Byd Cyntaf yn Ffrainc, Prydain, UDA a'r Almaen mewn perthynas â Chytundeb Versailles.<br><br>Ffurfio Gweriniaeth Weimar ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, Cytundeb Versailles, gorchwyddiant, ansefydlogrwydd gwleidyddol a gwrthwynebiad o'r ddau begwn. | **Gweithgareddau:**<br>Mapiwch safbwyntiau Clemenceau, Lloyd-George a Wilson.<br><br>Lluniwch dabl i ddeall cymhellion, digwyddiadau a chanlyniadau'r gwrthwynebiad o'r dde a'r chwith.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall rôl Cytundeb Versailles a'r croeso a gafodd gan wledydd perthnasol. Gallant ddadansoddi gwendidau Cyfansoddiad Weimar, gan ddeall heriau gwleidyddol. Gallant ymdrin â'r diwygiadau o dan Stresemann a chysylltu hyn â'r modd y gadawyd yr Almaen ar ôl ei farwolaeth yn 1929. | **Fideo(s):**<br>I Was There: The Great War Interviews<br><br>Post World War I Recovery: Crash Course History<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Stab in the back propaganda | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rôl Gustav Stresemann. Rôl diwygiadau economaidd a pholisi tramor o dan Stresemann.<br>Effaith economaidd 1929. | **Gweithgareddau uwch:**<br>Cynhaliwch ddadansoddiad ffynhonnell gynradd o bropaganda ar ôl y rhyfel, gan gysylltu hyn â'r teimladau yn yr Almaen ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.<br><br>Dadansoddwch nodweddion cadarnhaol a negyddol diwygiadau economaidd Stresemann.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ymdrin â deunydd ffynhonnell sylfaenol a deall agweddau gwrth-Weimar, ynghyd â damcaniaeth Dolchstoss. | | |
| • rhesymau dros ddatblygiad y Blaid Natsïaidd a'r gefnogaeth iddi, ac esgyniad Hitler i frig y Blaid. | Sefydlu Plaid Gweithwyr yr Almaen (DAP) yn 1919, y rhan a chwaraeodd Hitler ar y dechrau, ail-frandio'r Blaid Natsïaidd, Blynyddoedd Main y 1920au, Putsch München (Munich) a defnydd Hitler o bropaganda. | **Gweithgareddau:**<br>Lluniwch linell amser o'r newidiadau strwythurol a roddwyd ar waith yn ystod Blynyddoedd Main 1924-1929 gan gynnwys:<br>• Ralïau<br>• Propaganda<br>• Cynhadledd Bamberg y Natsïaid<br>• Gaus<br>• Etholiadau<br><br>Lluniwch stribed llyfr comig i ddeall Putsch München (Munich).<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall tarddiad y DAP o dan Anton Drexler, gan fapio esgyniad Hitler mewn perthynas â'r dirywiad economaidd, a dadansoddi effaith Putsch München (Munich) a'r Blynyddoedd Main. | **Fideo(s):**<br>Adolf Hitler: Leader of the Third Reich - Fast Facts \| History<br><br>**Gwefan(nau):**<br>NSDAP 25 Point Plan. | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Ymdriniwch â'r cynllun 25-pwynt o dan y Blaid Natsïaidd (NSDAP) ac ystyriwch darddiad y rhethreg Natsïaidd wrth-Semitig. Ystyriwch sut oedd Putsch München (Munich) o fudd i'r Natsïaid (mewn perthynas â'r Blynyddoedd Main a Hitler yn ennill statws cwltaidd).<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn adnabod tensiynau ar ôl y rhyfel a sut mae hyn yn cyd-fynd â dechreuad grwpiau eithafol yn Almaen Weimar. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.5.1 Atgyfnerthu'r Blaid Natsïaidd tua 1933–1934 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • y digwyddiadau a helpodd i atgyfnerthu safbwynt y Blaid Natsïaidd, gan gynnwys:<br>• Tân y Reichstag a'r Ddeddf Alluogi<br>• gwahardd y gwrthbleidiau. | Deall sut gwnaeth y digwyddiadau hyn alluogi Hitler a'r Blaid Natsïaidd i ennill a chanoli pŵer. Rhoddodd Tân y Reichstag ragesgus iddynt atal comiwnyddion, a llwyddodd Hitler i osgoi'r Reichstag yn sgil y Ddeddf Alluogi, gan reoli drwy archddyfarniad. Cwblhaodd gwaharddiad y gwrthbleidiau y trawsnewidiad i wladwriaeth dotalitaraidd. | **Gweithgareddau:**<br>Gweithgaredd llinell amser: Mae dysgwyr yn creu llinell amser o ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys Tân y Reichstag, y Ddeddf Alluogi a gwahardd y gwrthbleidiau.<br><br>Dadansoddiad o ffynhonnell: Bydd dysgwyr yn dadansoddi ffynonellau sylfaenol (e.e., areithiau ac erthyglau papur newydd) o'r cyfnod i asesu sut cafodd y digwyddiadau hyn eu fframio mewn propaganda Natsïaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall sut arweiniodd gwahardd y gwrthbleidiau ym mis Gorffennaf 1933 at wladwriaeth un blaid, a rôl y digwyddiadau hyn yn y ffordd gwnaeth y Blaid Natsïaidd atgyfnerthu pŵer.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Gallai dysgwyr ymchwilio i'r ymateb rhyngwladol i Dân y Reichstag a'r Ddeddf Alluogi. Sut ymatebodd gwledydd eraill i'r digwyddiadau hyn?<br>Dadansoddiad cymharol: Cymharwch broses Hitler i atgyfnerthu pŵer ag unbeniaid eraill mewn hanes (e.e., Mussolini, Stalin). Pa nodweddion tebyg neu wahanol sy'n gallu cael eu llunio yn eu dulliau? | **Fideo(s):**<br>Rise of the Nazis BBC iPlayer - 07:35 – 18:00.<br><br>The Reichstag Fire | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniadau uwch**<br>Gall dysgwyr gysylltu teimlad gwrth-sosialiaeth chwyldro 1917 yn Rwsia ac ystyried sut gall y tensiwn hwn ddatblygu (rhagfynegi Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid). | | |
| • sut daeth Hitler yn Führer yn 1934, gan gynnwys:<br>• arwyddocâd marwolaeth Hindenburg<br>• Noson y Cyllyll Hirion a llw teyrngarwch y lluoedd arfog i'r Blaid Natsïaidd. | Deall y newid o ddelio â bygythiadau allanol, i gael gwared ar wrthdaro mewnol yn y Blaid Natsïaidd.<br><br>Deall y camau allweddol a arweiniodd at Hitler yn dod yn Führer. Mae hyn yn cynnwys arwyddocâd marwolaeth Arlywydd Hindenburg a'r ffaith bod Noson y Cyllyll Hirion wedi cael gwared ar wrthwynebwyr gwleidyddol, gan ddiogelu sefyllfa Hitler.<br><br>Deall rôl y llw milwrol yn cadarnhau rheolaeth Hitler. | **Gweithgareddau:**<br>Dadansoddiad o ffynhonnell: Dylai dysgwyr ddadansoddi ffynonellau sylfaenol ar Noson y Cyllyll Hirion i ystyried y broses o sefydlu gwladwriaeth heddlu.<br><br>Tudalen flaen papur newydd: Bydd dysgwyr yn creu tudalen flaen papur newydd sy'n sôn am farwolaeth Hindenburg a Hitler yn cael y teitl Führer.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod llinell amser digwyddiadau, gan gynnwys marwolaeth Hindenburg ar 2 Awst 1934, a sut arweiniodd hynny at uno rolau'r Canghellor a'r Arlywydd yn "Führer". Byddant hefyd yn deall sut gwnaeth Noson y Cyllyll Hirion (30 Mehefin–2 Gorffennaf 1934) alluogi Hitler i gael gwared ar yr arweinyddiaeth SA a gwrthwynebwyr gwleidyddol eraill. Arwyddocâd llw teyrngarwch y fyddin i Hitler, a sicrhaodd gefnogaeth filwrol i'r gyfundrefn Natsïaidd.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Dadansoddwch ganlyniadau tymor hir Noson y Cyllyll Hirion. Sut gwnaeth hyn ad-drefnu strwythur pŵer Natsïaidd, a beth wnaeth ei ddatgelu am arddull arwain Hitler? | **Gwefan(nau):**<br>Ffynhonnell Night of the Long Knives<br><br>**Fideo(s):**<br>Night of the Long Knives | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried y ffaith bod esgyniad Hitler i Führer yn gyfuniad o oportiwnistiaeth a gweithredoedd a gynlluniwyd ymlaen llaw. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.5.2 Polisïau cymdeithasol ac ar sail hil tua 1933–tua 1939 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut datblygodd polisïau ar sail hil o dan y Natsïaid, gan gynnwys:<br>  • gwrth-Semitiaeth, yr hil Ariaidd, Deddfau Nürnberg (Nuremberg) oedd yn cael eu plismona gan yr SS a'r Gestapo<br>  • Kristallnacht ac allfudo. | Deall sut cafodd polisïau hiliol y Natsïaid, yn enwedig gwrth-Semitiaeth, eu gwneud yn sefydliadol, gan dargedu Iddewon a lleiafrifoedd eraill.<br><br>Gwybod arwyddocâd Deddfau Nürnberg (Nuremberg), Kristallnacht, a gweithredoedd yr SS a'r Gestapo yn gorfodi'r polisïau hyn. | **Gweithgareddau:**<br>• bydd dysgwyr yn creu llinell amser o bolisïau cynyddol wrth-Semitig rhwng 1933 a 1939<br>• dadansoddi posteri ac areithiau propaganda Natsïaidd i ddeall sut maen nhw'n cyfiawnhau polisïau gwrth-Semitig<br>• bydd dysgwyr yn ystyried rolau grwpiau gwahanol (Iddewon, Ariaid, swyddogion yr SS a swyddogion y llywodraeth) i archwilio effaith y polisïau hyn.<br><br>**Canlyniad:**<br>Dylai dysgwyr gydnabod bod y gwersyll crynhoi cyntaf wedi'i sefydlu mor gynnar â mis Mawrth 1933, drwy greu Dachau. Byddant yn deall Deddfau Nürnberg (1935) a'r ffaith bod Iddewon wedi colli eu dinasyddiaeth a'u hawliau sylfaenol.<br><br>Gallant ystyried sut gwnaeth Kristallnacht (9-10 Tachwedd, 1938) nodi trobwynt mewn trais Natsïaidd wrth-Semitig. Byddant yn gwybod am rolau'r SS a'r Gestapo yn plismona'r cyfreithiau hiliol hyn, ynghyd â'r polisi ehangach o annog allfudiad yr Iddewon cyn rhoi'r 'Ateb Terfynol' ar waith. | **Gwefan(nau):**<br>Llinell Amser Persecution of Jewish People<br><br>The Nuremburg Race Laws<br><br>**Fideo(s):**<br>Fideo Escaping to Britain | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgareddau uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn ymchwilio i effaith Kristallnacht ar gydberthynas y gwledydd a sut ymatebodd gwledydd i'r digwyddiad.<br><br>Gallai dysgwyr ddadlau ynghylch: Sut arweiniodd Deddfau Nürnberg y ffordd i'r Holocost?<br><br>Ymarfer traethawd: 'I ba raddau oedd Deddfau Nürnberg yn drobwynt ym mholisïau hiliol y Natsïaid?'<br><br>**Canlyniadau uwch:**<br>Gall dysgwyr archwilio cysylltiadau rhwng polisïau cynnar a gweithredoedd hil-laddol diweddarach. | | |
| • sut datblygodd polisïau cymdeithasol o dan y Natsïaid, gan gynnwys:<br>  • propaganda, sensoriaeth, mudiadau ieuenctid a pholisïau addysg<br>  • newid bywydau pobl sydd ddim yn hoff o gymdeithasu, menywod, ieuenctid a gweithwyr. | Deall sut defnyddiodd y Natsïaid bropaganda a sensoriaeth i reoli barn y cyhoedd, yn enwedig drwy addysg a mudiadau ieuenctid.<br><br>Deall sut effeithiodd cyfundrefn y Natsïaid ar grwpiau cymdeithasol gwahanol fel menywod, pobl ifanc a gweithwyr. | **Gweithgareddau**<br>Bydd dysgwyr yn archwilio posteri, areithiau a ffilmiau Natsïaidd i nodi themâu allweddol (e.e., gwrth-Semitiaeth, cenedlaetholdeb a rolau rhywedd traddodiadol).<br><br>Trafodaeth dosbarth: 'A wnaeth polisïau'r Natsïaid wella bywydau Almaenwyr cyffredin?' gyda grwpiau yn dadlau o safbwyntiau cymdeithasol gwahanol (e.e., menywod, pobl ifanc, gweithwyr).<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall rôl Joseph Goebbels a'r Weinyddiaeth Propaganda yn lledaenu ideoleg Natsïaidd:<br>• sut defnyddiwyd sensoriaeth i reoli'r wasg, y radio a'r celfyddydau | **Gwefan(nau):**<br>Lives of women in Nazi Germany<br><br>The school curriculum | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • strwythur a phwrpas mudiadau ieuenctid fel Mudiad Ieuenctid Hitler a Chynghrair Merched yr Almaen<br>• effaith polisïau Natsïaidd ar rolau menywod, gan gynnwys eu ffocws ar fod yn fam a'r teulu<br>• rôl Ffrynt Llafur yr Almaen a sut yr oedd bywydau gweithwyr yn cael eu rheoli drwy gynlluniau fel Cryfder Drwy Lawenydd (Kraft durch Freude).<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Project ymchwil: Ymchwiliwch i raddau'r gwrthwynebiad i bolisïau cymdeithasol y Natsïaid, gan ganolbwyntio ar grwpiau ieuenctid fel Môr-ladron Edelweiss a Swing Kids.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gymharu polisïau Natsïaidd â pholisïau cyfundrefnau totalitaraidd eraill (e.e., UGSS Stalin).<br><br>Gall dysgwyr werthuso effaith polisïau addysg Natsïaidd ar bobl ifanc yr Almaen. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Polisïau Crefyddol ac Economaidd tua .5.3 – tua 1934 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • newid polisïau yn ymwneud â chrefydd gan gynnwys:<br>• y Concordat gyda'r Eglwys Gatholig, yr ymateb o fewn yr Eglwys Brotestannaidd a datblygiad yr Eglwys Gyffes<br>• datblygiad Eglwys Genedlaethol y Reich. | Deall y rhesymau y tu ôl i Goncordat 1933 â'r Eglwys Gatholig.<br><br>Deall datblygiad yr Eglwys Reich Genedlaethol, o ystyried dyfodiad yr Eglwys Gyffesol a'r ymatebion i hyn.<br><br>Deall sut ceisiodd y gyfundrefn Natsïaidd greu eglwys Brotestannaidd wedi'i rheoli gan y wladwriaeth, sy'n cael ei galw yn Eglwys Reich, i hyrwyddo ideoleg Natsïaidd. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniwch linell amser yn dangos digwyddiadau allweddol o lofnodi'r Concordat i esgyniad yr Eglwys Gyffesol<br>• Cyflwynwch ddadl: Pam wnaeth y gyfundrefn Natsïaidd geisio cael rheolaeth dros yr eglwysi? Sut oedd hyn yn cyd-fynd â'u nodau ideolegol ehangach?<br>• archwiliwch areithiau neu ysgrifau ffigyrau Natsïaidd amlwg fel Ludwig Müller, Esgob y Reich.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod am y *Reichskonkordat* (Concordat 1933 a lofnodwyd rhwng yr Almaen Natsïaidd a'r Fatican). Dylid hyrwyddo dealltwriaeth o sut rhannwyd yr Eglwys Brotestannaidd, gan arwain at greu Eglwys Reich o blaid y Natsïaid a'r Eglwys Gyffesol wrthwynebol.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Tasg ymchwil: Cymharwch ymateb eglwysi Protestannaidd yr Almaen ag ymateb yr Eglwys Gatholig a gwerthuswch pa mor effeithiol oedden nhw yn gwrthwynebu polisïau'r Natsïaid.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>Extracts from the Concordat Agreement | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd dysgwyr yn deall y gwrthdaro ideolegol dyfnach rhwng tueddiadau paganaidd y gyfundrefn Natsïaidd a gwerthoedd Cristnogol traddodiadol. | | |
| • y newidiadau a'r polisïau economaidd a roddwyd ar waith i sefydlu awtarchiaeth gan gynnwys:<br>• yr economi o dan Schacht<br>• yr economi o dan Göring a'r Cynllun Pedair Blynedd. | Gwybodaeth am yr economi o dan Schacht a sut cafodd ei derbyn gan bobl yr Almaen. Dylid cyferbynnu hyn â'r economi o dan Göring, a dylid archwilio'r Cynllun Pedair Blynedd. | **Gweithgareddau:**<br>• lluniwch siart cymharu yn dangos dulliau gweithredu Schacht a Göring at bolisi economaidd<br>• dadansoddwch ddarnau o areithiau neu bolisïau economaidd a gyhoeddwyd o dan Schacht a Göring.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod am y polisïau a roddwyd ar waith gan Schacht i leihau diweithdra a nod Cynllun Pedair Blynedd Göring i gyflawni awtarchiaeth (hunangynhaliaeth).<br><br>Byddant hefyd yn deall nodau'r Cynllun Pedair Blynedd, gan gynnwys ailarfogi'r fyddin a pharatoi'r economi ar gyfer rhyfel.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl: Pa ddull gweithredu (Schacht neu Göring) oedd fwyaf buddiol i economi'r Almaen Natsïaidd?<br><br>**Canlyniadau uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn deall sut roedd Cynllun Newydd Schacht yn cyferbynnu â Chynllun Pedair Blynedd mwy militaraidd Göring, ac arwyddocâd awtarchiaeth mewn ideoleg a nodau milwrol Natsïaidd. | **Gwefan(nau):**<br>Improvement of living standards | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.5.4 Effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar fywydau pobl yr Almaen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith y rhyfel ar fywydau pobl yr Almaen rhwng 1939 a 1941, gan gynnwys:<br>• y newid yn rôl menywod<br>• propaganda rhyfel. | effaith y rhyfel ar fywydau pobl yr Almaen rhwng 1939 a 1941, gan gynnwys:<br>• rôl newidiol menywod (menywod yn cael rolau newydd mewn ffatrïoedd, ysbytai a rolau ategol milwrol wrth i'r dynion fynd i ryfel)<br>• propaganda rhyfel (rôl propaganda Natsïaidd yn llywio canfyddiad y cyhoedd a'r defnydd o'r cyfryngau i ysgogi cefnogaeth i'r rhyfel). | **Gweithgareddau:**<br>• dadansoddwch bosteri a ffilmiau propaganda adeg y rhyfel<br>• cynhaliwch ddadleuon ar y newidiadau yn rolau menywod yn ystod y rhyfel<br>• archwiliwch adroddiadau uniongyrchol gan y rhai yr effeithiodd yr ymgyrchoedd bomio arnynt.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn gwybod termau allweddol fel 'rhyfel Diarbed', 'propaganda', 'gwrthsefyll' a 'gwrthwynebiad'. Byddant yn deall sut dylanwadodd propaganda ar fywyd pob dydd a morâl yn yr Almaen Natsïaidd.<br><br>Gall dysgwyr drafod effaith ymgyrchoedd bomio ar sifiliaid yn yr Almaen.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Ymchwiliwch i'r Kindertransport. Archwiliwch hanes y plant wnaeth fudo i Brydain yn ystod y rhyfel.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hunaniaeth a chenedlaetholdeb ar gyfer y plant a fudodd o'r Almaen. | **Gwefan(nau):**<br>6 Stories of the Kindertransport | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • sut arweiniodd bomio'r Cynghreiriaid at 'ryfel diarbed' a'i effaith ar fywydau pobl yr Almaen, gan gynnwys:<br>• gwrthwynebiad pobl ifanc i'r Natsïaid, gan gynnwys Grŵp y Rhosyn Gwyn; grwpiau a phobl grefyddol, gan gynnwys Martin Niemöller a Dietrich Bonhoeffer; ac adrannau o'r fyddin, gan gynnwys Ymgyrch Valkyrie<br>• yr Ateb Terfynol. | sut arweiniodd bomio'r Cynghreiriaid at 'ryfel diarbed' a'i effaith ar fywydau pobl yr Almaen, gan gynnwys:<br>• gwrthwynebiad i'r Natsïaid gan grwpiau ieuenctid, fel Grŵp y Rhosyn Gwyn, a gwrthwynebiad gan arweinwyr crefyddol fel Martin Niemöller a Dietrich Bonhoeffer.<br>• effaith y bomio ar sifiliaid a dinasoedd, gan gynnwys dinistrio isadeiledd a chartrefi. | **Gweithgaredd:**<br>Ysgrifennwch erthygl papur newydd yn amlinellu gwaith Grŵp y Rhosyn Gwyn.<br><br>**Canlyniad:**<br>Dylai dysgwyr wybod am waith Grŵp y Rhosyn Gwyn ac ystyried rôl y gwrthwynebiad yn ystod blynyddoedd cynnar y rhyfel. Gallant ystyried cynnydd y ffigyrau crefyddol a'u dynameg â'r gyfundrefn Natsïaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i fywydau ac effaith unigolion fel Dietrich Bonhoeffer a grwpiau fel Grŵp y Rhosyn Gwyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn deall gwrthwynebiad a chanfyddiadau cymhleth Almaenwyr yn gwrthwynebu'r gyfundrefn Natsïaidd. | **Gwefan(nau):**<br>[The White Rose Resistance Group] | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.5.5 Cwymp y Drydedd Reich a dad-Natsïeiddio | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • Berlin yn ildio a chwymp y Drydedd Reich, gan gynnwys:<br>• dwysáu bomio'r cynghreiriaid a goresgyniad y Fyddin Goch<br>• marwolaeth Hitler a'r Almaen yn ildio yn 1945. | Berlin yn ildio a chwymp y Drydedd Reich, gan gynnwys:<br>• dwysáu bomio'r cynghreiriaid a goresgyniad y Fyddin Goch<br>• marwolaeth Hitler a'r Almaen yn ildio yn 1945.<br><br>Ymgyrch Barbarossa a rôl y Sofietiaid. | **Gweithgareddau:**<br>Plotiwch y digwyddiadau allweddol o ymosodiad y cynghreiriaid a chwymp Berlin.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall methiannau byddin yr Almaen a arweiniodd at eu methiant yn y rhyfel. Byddant hefyd yn deall y ddynameg ar y llwyfan rhyngwladol sydd hefyd yn chwarae rhan (UDA a'r Sofietiaid).<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Amlinellwch y cynlluniau i'r Almaen a drafodwyd yng nghynadleddau Tehran, Potsdam a Yalta.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd dysgwyr yn deall arwyddocâd cynadleddau Tehran, Potsdam a Yalta o ran nodi diwedd y gyfundrefn Natsïaidd. | **Fideo(s):**<br>Front Seat at the Nuremberg Trials | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • dad-natsïeiddio gan gynnwys:<br>• diddymu a gwahardd y Blaid Sosialaidd Genedlaethol<br>• Treialon Nürnberg, 1945. | Diddymu a gwahardd y Blaid Sosialaidd Genedlaethol.<br><br>Treialon Nürnberg yn 1945, lle cafodd troseddwyr rhyfel Natsïaid eu dwyn o flaen eu gwell. | **Gweithgaredd:**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr drafod pwy ddylai gymryd cyfrifoldeb dros y ffaith bod y gyfundrefn Natsïaidd wedi parhau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Bydd dysgwyr yn deall pa mor allweddol oedd Treialon Nürnberg i daflwybr yr hawliau dynol sy'n gyfarwydd i ni.<br><br>Byddant hefyd yn deall cymhlethdod cyfranogaeth a chyfrifoldeb o ran y gyfundrefn Natsïaidd.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Drafftiwch fil hawliau dynol yn seiliedig ar y cyfnod ar ôl yr Almaen Natsïaidd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ystyried rôl Hawliau Dyn yn Nhreialon Nürnberg a sut mae hyn yn ymwneud â'n dealltwriaeth o Hawliau Dynol. | | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol | Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael mynediad i archifau ar-lein o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o ddeunyddiau ffynhonnell hanesyddol fel llythyrau, dyddiaduron neu ddogfennau'r llywodraeth.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio technoleg ddigidol i ymchwilio i'r testun i'w astudio ac i feithrin eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol ymhellach.<br><br>Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i gyflawni eu hymchwiliad hanesyddol yn ddigidol, fel rhan o'r asesiad ar gyfer yr uned hon. |
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gall dysgwyr fynd i'r afael â'r adnoddau ar wefan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost a chymryd rhan yn y teithiau rhithiol byw o Auschwitz lle maent yn cael eu tywys. |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd dysgwyr yn astudio effeithiau totalitariaeth a gwladwriaeth ffasgaidd. Mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i brofi empathi. Bydd natur sensitif y dysgu yn galluogi dysgwyr i drin y pwnc mewn modd sensitif. Bydd dysgu am brofiadau'r Holocost yn galluogi dysgwyr i ddatblygu empathi a thosturi. |
| Gweithio ar y cyd | Bydd dysgwyr yn meithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau a thrafod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Bydd Astudio Y Drydedd Reich (yr Almaen Natsïaidd o tua 1933–tua 1945) yn galluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau rhyngwladol drwy archwilio sut cafodd grymoedd economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol byd-eang eu ffurfio a sut effeithiodd y gyfundrefn Natsïaidd arnynt. Arweiniodd esgyniad a gweithredoedd Y Drydedd Reich at ganlyniadau rhyngwladol sylweddol, sy'n golygu ei fod yn astudiaeth achos mewn dynameg cenedlaetholdeb ac awdurdodaeth. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Bydd dysgwyr yn ystyried safbwyntiau a phrofiadau gwahanol wrth archwilio bywydau menywod a phlant yn yr Almaen Natsïaidd. Byddant yn ystyried profiadau'r rhai a gafodd eu herlid, ac yn trin y syniad o wahaniaethu a rhagfarn mewn cymdeithas. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Ystyried profiadau mudwyr y bu'n rhaid iddynt ffoi i Brydain i osgoi cael eu herlid (Kristallnacht) a defnyddio gwefan cofeb yr Holocost i ystyried gwaddol y rhai gafodd eu targedu o dan Y Drydedd Reich. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Bydd dysgwyr yn dadansoddi ffynonellau cynradd ac eilaidd am yr Almaen Natsïaidd, fel propaganda, cyfreithiau a thystiolaeth goroeswyr. Bydd hyn yn atgyfnerthu eu sgiliau ymchwilio a dadansoddi, sy'n werthfawr mewn gyrfaoedd fel y gyfraith, newyddiaduraeth a pholisi cyhoeddus. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td>Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td>Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad maen nhw'n ei roi o ddigwyddiadau.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
<tr><td>Siarad</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>Enghreifftiau</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br><br>**Enghraifft**<br><br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br><br>**Enghraifft**<br><br>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a byddant yn meithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad mewn fformat digidol.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio.<br>• Cwblhau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Cyfannol** | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | **Enghraifft**<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.5

### Modern: Y Drydedd Reich, tua 1933 – tua 1945

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Adolf Hitler | Arweinydd (Führer) y blaid Natsïaidd ac unben yr Almaen Natsïaidd rhwng 1933 tan ei farwolaeth yn 1945. Chwaraeodd rôl ganolog ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd a'r Holocost. |
| Deddf Alluogi | Deddf o 1933 a roddodd y pŵer i Hitler basio deddfau heb y Reichstag (y senedd), gan ei alluogi yn y bôn i sefydlu unbennaeth ac atgyfnerthu ei reolaeth dros yr Almaen. |
| Deddfau Nürnberg (Nuremberg) | Cyfres o ddeddfau gwahaniaethol a basiwyd yn 1935 wnaeth gymryd eu dinasyddiaeth Almaenaidd oddi ar yr Iddewon, gwahardd priodas rhwng Iddewon a phobl nad oeddent yn Iddewon, a gosod sylfeini ar gyfer erledigaeth bellach |
| Gestapo | Heddlu cudd swyddogol yr Almaen Natsïaidd, sy'n gyfrifol am gael gwared ar wrthwynebiad i'r gyfundrefn a gorfodi polisïau Natsïaidd drwy ofn a bygythiadau. |
| Gweriniaeth Weimar | Llywodraeth ddemocrataidd yr Almaen rhwng 1919 a 1933, a wynebodd ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd. Arweiniodd ei chwymp at esgyniad y gyfundrefn Natsïaidd. |
| Hil Ariaidd | Cysyniad allweddol yn ideoleg y Natsïaid, sy'n cyfeirio at 'hil oruchaf' o Almaenwyr pur nad ydynt yn Iddewon, y mae ganddyn nhw yn aml wallt golau a llygaid glas. Defnyddiwyd y gred hon i gyfiawnhau hiliaeth a gwrth-Semitiaeth. |
| Kristallnacht | Enw arall ar hwn yw 'Noson y Gwydr Toredig' (9-10 Tachwedd 1938), pan ymosodwyd ar gartrefi a busnesau Iddewig a synagogau ledled yr Almaen ac Awstria, gan nodi cynnydd sylweddol yn erlyniad y Natsïaid o'r Iddewon. |
| Lebensraum | Yr ystyr llythrennol yw 'lle i fyw', ac roedd hwn yn un o bolisïau craidd y Natsïaid wedi'i anelu at ehangu tiriogaeth yr Almaen, yn benodol i mewn i Ddwyrain Ewrop, er mwyn diogelu adnoddau a gofod i'r boblogaeth Ariaidd. |
| Propaganda | Dull a ddefnyddiwyd yn eang gan y gyfundrefn Natsïaidd, yn enwedig o dan Joseph Goebbels, i reoli barn y cyhoedd drwy'r cyfryngau, ralïau a phosteri sy'n hyrwyddo ideoleg y Natsïaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Y blaid Natsïaidd (NSDAP) | Plaid Sosialaidd Genedlaethol Gweithwyr yr Almaen, plaid wleidyddol dde eithafol dan arweiniad Adolf Hitler, a oedd yn hyrwyddo cenedlaetholdeb, gwrth-Semitiaeth a thotalitariaeth. |
| Y Drydedd Reich | Cyfeiriadau at yr Almaen Natsïaidd, y gyfundrefn a arweiniwyd rhwng 1933 ac 1945 gan Adolf Hitler, y bwriadwyd iddo fod yn olynydd i'r Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd (Y Reich Gyntaf) a'r Ymerodraeth Almaenig (yr Ail Reich) |
| Yr Holocost | Hil-laddiad o chwe miliwn o Iddewon a miliynau o bobl eraill gan gynnwys Roma, unigolion anabl a gwrthwynebwyr gwleidyddol, mewn modd systemig a noddwyd gan y wladwriaeth gan yr Almaen Natsïaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. |
| Yr SS (Schutzstaffel) | I ddechrau, tyfodd uned gwarchodlu personol Hitler, yr SS, i fod yn sefydliad parafilwrol pwerus o dan Heinrich Himmler, yn gyfrifol am lawer o'r erchyllterau a gyflawnwyd yn ystod yr Holocost. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025